# Amcangyfrif Statudol

## 2024-25

Cyflwynwyd i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 19 o atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Crynodeb a chais

Bydd blwyddyn nesaf yn flwyddyn hollbwysig i weithrediad y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd pwysigrwydd gwneud penderfyniadau hirdymor a llesiant yn bwysicach nag erioed wrth i ni lywio ein ffordd drwy'r heriau ariannol enfawr sy'n wynebu sector cyhoeddus Cymru a hynny heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Nid dyma'r amser i wneud penderfyniadau tymor byr a fydd yn creu problemau mwy hyd yn oed ar gyfer y dyfodol.

Does dim llawer o amser ar ôl i fynd i'r afael ậ materion diffiniol ein cenhedlaeth, fel yr argyfwng hinsawdd a natur, ac iechyd hirdymor y genedl. Er enghraifft, mae un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru, ac un o bob tri mamal yn wynebu difodiant heb ymyrraeth. Ni fedr y materion pwysig hyn aros yn hwy i gael y sylw y maent yn ei haeddu.

Bydd y flwyddyn nesaf yn nodi cychwyn cyfnod darpariaeth gyflawn fy strategaeth newydd, 'Cymru Can', sy'n blaenoriaethu fy rhaglen waith ar weithredu ac effaith. Fel canlyniad i ddadansoddiad manwl a chyfnod ymgyfrannu, rwyf wedi rhoi strategaeth uchelgeisiol ar waith ar gyfer y cyfnod hyd at 2030. Mae yna fomentwm a chefnogaeth sylweddol i'r strategaeth hon, sy'n gofyn am adnoddau digonol.

Bydd y flwyddyn hon hefyd yn gweld ehanghiad mwyaf y Ddeddf ers iddi ddod i rym wrth i ni groesawu wyth corff newydd o dan gylch gorchwyl y Ddeddf ar 1af Ebrill 2024. Bydd y flwyddyn nesaf felly'n adeg dyngedfennol i'r sefydliadau hyn osod sylfeini cadarn ar gyfer cyflawni'r Ddeddf a fydd yn gofyn am gefnogaeth arbenigol gan fy nhîm.

Darparodd cyllideb Llywodraeth Cymru 2023-34, y cytunwyd arni yn Chwefror 2023, gyllideb ddangosol ar gyfer Comisiynydd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol o £1,680,000 ar gyfer 2024-25, sy'n cynrychioli dim cynnydd ar y flwyddyn gyfredol er gwaethaf y pwysau chwyddiant parhaus. Yn y ddogfen hon, rwyf yn dadlau dros gael cynnydd mewn cyllid sydd yn unol ậ chwyddiant i fy ngalluogi i gyflawni fy nyletswyddau a swyddogaethau, a chynnydd hefyd i fy ngalluogi i gwrdd ậ'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ậ chynorthwyo'r wyth corff cyhoeddus newydd. Byddaf yn parhau i drefnu adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd i wireddu gwerth ardderchog i'r trethdalwyr. Felly rwy'n gofyn am gyllideb o **£1,910,600** ar gyfer y flwyddyn 2024-25.

## 1. Sail Amcangyfrif

Cyflwynir yr amcangyfrif hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yn unol â pharagraff 19 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) Rheoliadau 2015. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru archwilio'r amcangyfrif hwn a'i osod gerbron y Senedd gydag unrhyw addasiadau sydd yn eu barn yn briodol.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r amcangyfrif wedi'i baratoi ar sail adnoddau. Mae hefyd yn cynnwys amcangyfrif o’r cymorth grant sydd ei angen i ariannu’r gwariant adnoddau net er, o ystyried cyflwyno’r Prosiect Alinio, bydd yr union gymorth grant a hawlir yn ystod y flwyddyn bellach yn dibynnu ar y llif arian yn ystod y flwyddyn a'n balansau ar ddechrau'r flwyddyn.

Dyma fy amcangyfrif cyntaf fel Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru.

## 2. Fy nyletswydd Cyffredinol a Swyddogaethau Statudol

Fy nyletswydd Cyffredinol yw:

(a) hybu’r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn benodol -

> (i) gweithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, ac
>
> (ii) annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau y maent yn eu gwneud, a

( b ) at y diben hwnnw, monitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu bodloni.

Fy swyddogaethau statudol yw:

(1) Gall y bydd y Comisiynydd, wrth gyflawni dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd -

> (a) yn darparu cyngor neu gymorth i gorff cyhoeddus (sy'n cynnwys rhoi cyngor ar newid hinsawdd);
>
> (b) yn rhoi cyngor i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy;
>
> (c) yn darparu cyngor neu gymorth i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â pharatoi ei gynllun llesiant lleol;
>
> (d) yn rhoi cyngor neu gymorth i unrhyw berson arall y mae’r Comisiynydd yn ystyried eu bod yn cymryd (neu’n dymuno cymryd) camau a all gyfrannu at gyflawni’r nodau llesiant;
>
> (e) yn annog arfer gorau ymhlith cyrff cyhoeddus wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy;
>
> (f) yn hybu ymwybyddiaeth ymhlith cyrff cyhoeddus o’r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy;
>
> (g) yn annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda’i gilydd a gyda phersonau eraill os gallai hyn eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion llesiant;

(h) yn gofyn am gyngor panel cynghori mewn perthynas ag arfer unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Gall y Comisiynydd ymgymryd ag ymchwil neu astudiaeth arall ynghylch –

(a) i ba raddau y mae'r nodau llesiant a'r dangosyddion cenedlaethol yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;

(b) i ba raddau y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hystyried yn y dangosyddion cenedlaethol;

(c) yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei hun (gan gynnwys sut y'i cymhwysir i osod amcanion a'u bodloni), ac

(d) unrhyw beth sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r pethau hynny sy'n effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (neu unrhyw ran o Gymru).

Mae gen i hefyd nifer o bwerau a dylestswyddau penodol o dan y Ddeddf, yn cynnwys:

**Pwerau a dyletswyddau sy'n ymwneud ặ Llywodraeth Cymru (LlC)**

- Rhaid ymgynghori ặ mi ar adolygiadau a cherrig milltir LlC a.10.
- Rhaid ymgynghori â mi os yw Llywodraeth Cymru, drwy reoliadau, i ddiwygio'r trothwy sy'n pennu pryd y caiff cyngor cymuned ei ddal gan y Ddeddf a.40.
- Rhaid ymgynghori â mi os bydd Llywodraeth Cymru drwy reoliadau yn diwygio'r diffiniad o gorff cyhoeddus yn y Ddeddf a.52.
- Os gwnaf argymhellion i Lywodraeth Cymru ar nodau a dangosyddion, rhaid i ni eu cyhoeddi a.21.
- Wrth osod eu hamcanion rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried fy adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a.8.
- Gallaf ddarparu cyngor neu gymorth (gan gynnwys cyngor ar newid hinsawdd), cyrff cyhoeddus, Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC), Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), unrhyw berson arall y gall y bydd yn cyfrannu at y nodau a.19.
- Pŵer i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar nodau a dangosyddion a.21.

**Pwerau a dyletswyddau sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus**

- Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori ặ mi yn ystod ei archwiliadau o gyrff cyhoeddus (s.15). Dyletswydd unwaith yn ystod cyfnod (1 flwyddyn cyn etholiad/1 flwyddyn 1 diwrnod wedi hynny).
- Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i ddilyn argymhellion ein hadolygiad oni bai bod yna reswm da dros beidio ặ gwneud hynny a.22.
- Wrth gynnal adolygiad, rhaid i mi ystyried archwiliadau gan ACC a.20, rhaid i ni gyhoeddi adroddiad o adolygiad.
- Wrth adolygu eu hamcanion rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a.9.

**Pwerau sy'n berthansol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau)**

- Cyn cyhoeddi eu hasesiadau Llesiant, rhaid i FGCau ymgynghori ậ mi a rhoi drafft i mi a.38
- Cyn cyhoeddi eu cynlluniau Llesiant rhaid i FGCau ymgynghori ậ mi a rhoi drafft i mi a.43.
- Cyn cyhoeddi adolygiad o'u cynlluniau Llesiant rhaid i FGCau ymgynghori ậ mi a rhoi drafft i mi a.44
- Rhaid i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu Awdurdodau Lleol anfon ataf eu hadroddiadau neu eu hargymhellion i'r BGCau mewn perthynas â swyddogaethau'r bwrdd neu drefniadau llywodraethu a.35.
- Rhaid i bob BGC anfon ataf copi o'u hasesiadau llesiant a.37.
- Rhaid i bob BGC anfon ataf gopi o'u cynllun llesiant a.39.
- Rhaid i bob BGC anfon ataf gopi o'u cynllun llesiant diwygiedig a.44.
- Rhaid i bob BGC anfon ataf gopi o'u hadroddiad blynyddol yn nodi'r camau a gymerwyd i gyflawni amcanion sydd wedi'u cynnwys yn eu cynllun a.45.
- Rhaid i mi roi cyngor o fewn 14 wythnos i FGCau ar sut i gymryd camau i gyflawni'r amcanion lleol sydd i'w cynnwys yn y cynllun yn unol ag egwyddor Datblygu Cynaliadwy (DC). Rhaid iddo fod yn ysgrifenedig a chaiff ei gyhoeddi gyda'r cynllun (a.42).
- Wrth osod eu hasesiadau llesiant rhaid i FGCau ystyried ein hadroddiad Cenedlaethu'r Dyfodol a.39.
- Efallai y byddaf yn hybu ymwybyddiaeth o'r angen i gymryd camau i gyflawni amcanion.

**Pwerau Amrywiol**

- Rhaid ymgynghori â mi ar benodiadau a diswyddiadau aelodau o'r panel cynghori a.27.
- Rhaid i mi baratoi a chyhoeddi cyn diwedd y cyfnod adrodd (cyn 5ed Mai) Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys asesiad o welliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i osod a chyflawni amcanion yn unol ậ'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy a.23.
- Rhaid i mi ymgynghori ag ymgyngoreion statudol cyn cyhoeddi adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a.24, rhaid i mi ystyried adroddiadau blynyddol LlC, adroddiad tueddiadau'r dyfodol ac adroddiadau ACC.
- Rhaid i mi gyhoeddi adroddiad blynyddol cyn 31ain Awst a rhaid i mi anfon copi at Weinidogion Cymru - rhaid i mi gynnwys crynodeb o weithgarwch, effeithiolrwydd y fath gamau gweithredu, crynodeb o raglen waith y gorffennol a'r dyfodol, crynodeb o gwynion; gall hwn gynnwys asesiad o'r gwelliannau angenrheidiol i'w gwneud gan gyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion yn unol â Datblygu Cynaliadwy (Atodlen 2. Para.17).
- Rhaid i mi ymgynghori â'r panel cynghori cyn cyhoeddi adroddiad blynyddol (Atodlen 2. Para.17). (Adroddiad blynyddol i'w osod gerbron y Cynulliad – a fyddai'n disgwyl craffu/ymddangosiad??)
- Rhaid i mi baratoi amcangyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol o incwm a threuliau cyn 5ed o Ragfyr Atodlen 2 para.19.

- Dyletswydd i gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, paratoi cyfrifon Para 20.
- Dyletswydd i gyflwyno cyfrifon i'r Archwilydd Cyffredinol cyn 31ain Awst.
- Gallaf gynnal adolygiadau ar y cyd â chomisiynwyr eraill a.25.
- Gallaf wneud unrhyw beth y mae’r Comisiynydd yn ei ystyried yn briodol mewn cysylltiad â swyddogaethau’r Comisiynydd Atod. 2 para 8.

## 3. Y Cyd-destun

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn Ddeddf flaengar a edmygir ac sy’n destun eiddigedd byd-eang. Mae’n feiddgar, uchelgeisiol, trawsnewidiol a hollbwysig i genedlaethau’r dyfodol.

Mae ar fy swyddfa angen cyllid digonol i gyfateb i’r uchelgeisiau hyn a rhoi i gyrff cyhoeddus y cyngor a’r cymorth arbengiol sydd arnynt eu hangen

Cododd fy rhagflaenydd bryderon am y lefel o adnoddau oedd ar gael i fy swyddfa i gyflawni fy nyletswyddau’n foddhaol a defnyddio fy mhwerau yn y dull mwyaf effeithiol. Rwy’n rhannu’r pryderon hyn.

### Mae’r gwaith yn bwysicach nag erioed yn y cyd-destun ariannol presennol

Mae’r cyd-destun ariannol heriol i’r sector cyhoeddus yn golygu ei bod yn hollbwysig ein bod yn ffocysu ar yr hirdymor. Os na wnawn, fe fydd y materion hirdymor hynny’n gwaethygu ac yn mynd yn fwy anodd neu’n fwy drud i’w datrys. Ar adegau o argyfwng, mae fframwaith y Ddeddf yn dod yn bwysicach nag erioed ar gyfer llywio ein penderfyniadau.

Nid oes angen i weithredu er budd cenedlaethau’r dyfodol, tra’n bod ar yr un pryd yn mynd i’r afael ậ buddiannau cenedlaethau’r presennol, arwain at ddatrysiadau drutach, ond gallent yn aml arwain at rai gwahanol. Mae angen i ni sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cael eu cynorthwyo i fabwysiadu’r ymagwedd honno ar adeg sy’n ei gwneud yn ofynnol i ni wneud penderfyniadau ariannol anodd. Mae cyngor a chymorth arbenigol fy nhîm yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol yn dod hyd yn oed yn fwy pwysig ac angenrheidiol yn y cyd-destun hwn.

### Disgwyliadau a chylch gwaith eang

Mae cylch gwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn eang. Mae’n cwmpasu pob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Mae’r uchelgais a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn arwyddocaol, fel y dangosir yn y Ddeddf, y saith nod llesiant, yr hanner can dangosydd a’r ddwy ar bymtheg carreg filltir.

Mae’r cyrff cyhoeddus sy’n dod o dan y Ddeddf yn darparu gwasanaethau mewn ystod eang o feysydd. Gyda’i gilydd maent yn gosod a darparu yn erbyn cannoedd o amcanion llesiant a chynlluniau llesiant. Mae’r Ddeddf hefyd yn ymwneud ậ newid diwylliannol, sy’n hynod o anodd ac yn gofyn am amser a dyfalbarhad.

Mae'r agenda uchelgeisiol ac eang hon yn gofyn i fy nhîm am ystod eang o sgiliau a phrofiad i'w chyfiawnhau. Mae hefyd yn gofyn am allu sylweddol.

**Mynd i'r afael ậ materion diffiniol ein hoes**

Mae'r agenda sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn un sy'n cwmpasu materion mwyaf ein hoes. Mae canlyniadau dinistriol newid hinsawdd, bygythiad colli natur, y lefelau o anghydraddoldeb a thlodi sy'n mynd o ddrwg i waeth yn ogystal ậ'r galwadau anghynaliadwy ar ein system gofal iechyd yn sylfaenol i lesiant pobl heddiw yn ogystal ậ'r cenedlaethau sydd eto i ddod.

Mae'n rhaid i'r byd gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2050 i osgoi newid hinsawdd trychinebus a chwalfa systemau. Mae un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru, ac un o bob tri mamal yn wynebu difodiant heb ymyrraeth. Mae gan Gymru'r cyfraddau diabetes a gordewdra uchaf yn y DG, a fydd yn gwneud ein system iechyd yn anghynaliadwy. Golyga hyn i gyd na fedr yr agenda aros. Rydym eisoes wedi ei gadael yn rhy hwyr; ond os wnawn ni ohirio gweithredu ymhellach mi fyddwn yn rhedeg allan o amser.

Fel canlyniad, er gwaethaf yr heriau economaidd, rhaid i Gymru beidio ậ gwneud y camgymeriad a wneir gan wledydd eraill, sef gohirio gweithredu i fynd i'r afael ậ'r materion hirdymor mwyaf. Rhaid i Gymru ymdrechu i gynnal ei lle yn y byd fel gwlad sy'n gwneud yr hyn sy'n iawn ar gyfer heddiw ac yfory. Dyna pam mae hi'n bwysig i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gael ei hariannu'n ddigonol i gyflawni ei dyletswyddau. Mae'r Swyddfa'n unigryw fel un ậ'r arbenigedd a'r wybodaeth i helpu cyrff cyhoeddus ar y daith heriol hon.

Bydd y byd yn ffocysu'r flwyddyn nesaf ar gynaliadwyedd byd-eang gydag Uwchgynhadledd y Dyfodol y Cenhedloedd Unedig arfaethedig ym mis Medi 2024. Bydd hyn yn cynnwys Datganiad gan y Cenhedloedd Unedig ar Genedlaethau'r Dyfodol a chynnig ar gyfer creu Llysgennad Arbennig Cenedlaethau'r Dyfodol, seiliedig ar ein model Cymreig. Mae hon yn foment unigryw i Gymru. Yn 2023-24 dylem fanteisio ar y ffocws hwn gan y Cenhedloedd Unedig ar genedlaethau'r dyfodol i helpu Cymru i gyflawni ei hamcanion rhyngwladol.

**Fy strategaeth newydd - 'Cymru Can'**

Rwyf wedi treulio'r wyth mis diwethaf yn siarad ậ phobl a sefydliadau ledled Cymru, yn ogystal ag arbenigwyr, a fy nhîm am ble all fy rôl gael yr effaith mwyaf. Y canlyniad yw strategaeth uchelgeisiol newydd, *Cymru Can*, sy'n cael ei lansio ar 14$^{eg}$ Tachwedd 2023. Mae'r strategaeth yn ffocysu ar y materion hirdymor pwysicaf i'n gwlad.

Mae'r strategaeth newydd yn gosod pum cenhadaeth newydd i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n blaenoriaethu gwaith lle gallwn gael yr effaith mwyaf posibl.

Yn bennaf oll dywedodd yr ymgyfraniad a'r dadansoddiad yr ymgymerwyd ậ hwynt bod angen i ni, ledled Cymru, sicrhau bod gweithrediad y ddeddfwriaeth hon yn gwireddu ei photensial, a bod angen i ni gau'r bwlch rhwng dyhead a darpariaeth. Gweithredu ac effaith felly fydd fy nghenhadaeth graidd a bydd yn sail i bopeth a wneir gan fy swyddfa. Byddaf yn cyfeirio ffocws fy nhîm i bedwar maes arall – ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a byd natur; mwy o weithredu i atal salwch; economi llesiant; ac amddiffyn a gwella diwylliant a'r Gymraeg.

Bydd fy strategaeth yn gosod mesurau llwyddiant a dangosyddion perfformiad allweddol yn erbyn yr hwn y gellir asesu effaith fy nhîm mewn dull agored a thryloyw.

Rwyf yn y broses o ddatblygu rhaglen waith a fydd yn cyflawni'r strategaeth hon yn 2024-25 ac y rhoddir cyfrif amdani yn y cyllid y gofynnir amdano yn yr amcangyfrif statudol hwn. Y flwyddyn nesaf fydd y flwyddyn gyntaf lawn ar gyfer cyflawni'r strategaeth ac mae'n bwysig iddi gael cychwyn cadarn. Mae yna fomentwm sylweddol eisoes a chefnogaeth i'r strategaeth gan bobl ledled Cymru fel canlyniad i'r modd y mae wedi ei chynllunio, yr wyf yn bwriadu ei harneisio. Rwyf yn hyderus y bydd y strategaeth yn cyflawni newid parhaol a sylfaenol cyhyd ậ bod adnoddau digonol yn cael eu darparu.

**Cyrff ychwanegol**

Mae wyth corff cyhoeddus newydd i fod i gael eu dwyn o dan y Ddeddf yn Ebrill 2024. Sefydliadau yw'r rhain, fel Trafnidiaeth Cymru a Cymwysterau Cymru sydd wedi eu sefydlu ers i'r Ddeddf ddod i rym.

Mae'n bwysig bod yr wyth corff cyhoeddus hyn yn dod o dan y ddeddfwriaeth heb oedi pellach. Mae angen i bob corff cyhoeddus ffocysu ar yr hirdymor ac ar fynd i'r afael ậ'r materion mwyaf sy'n ein hwynebu heddiw. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithredu ac integreiddio, ag angen iddo gynnwys pob corff cyhoeddus datganoledig os yr ydym i lwyddo i uno gwasanaethau cyhoeddus a defnyddio adnoddau yn y dull gorau posibl er budd dinasyddion. Mae llawer o waith eisoes wedi ei wneud i gynorthwyo'r wyth corff cyhoeddus hyn i baratoi ac maent mewn sefyllfa dda i ddechrau gweithredu o 1af Ebrill 2024.

Bydd y cyrff ychwanegol hyn yn cynyddu'r galw ar fy nhîm. Yn y gorffennol mae cyrff newydd (4 Cyd-bwyllgor Corfforaethol) wedi cael eu dwyn o dan y Ddeddf heb gyllid ychwanegol ar gyfer fy swyddfa. Ni all hyn barhau heb effeithio ar allu fy nhîm i fod yn effeithiol. Ar gyfer y cyrff ychwanegol hyn rwyf wedi amcangyfrif mai'r lleiafswm sy'n ofynnol yw £80,000 y flwyddyn o 1af Ebrill 2024.


**Galw cynyddol ar fy swyddfa**

Mae'r ymarfer ymgyfrannu yr ymgymerais ag ef i sefydlu fy strategaeth a fy nghynllun gwaith newydd, y gwneuthum ei alw'n Ffocws Ein Dyfodol, wedi amlygu'r gwerth a

roddir ar fy nhîm gan gyrff cyhoeddus. Yn ystod yr wyth mis diwethaf rwyf wedi cwrdd ậ thimau arweinyddiaeth yr holl gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf. Rwyf wedi cwrdd ậ Phrif Weithredwyr, Arweinwyr a Chadeiryddion, yn ogystal ag arweinwyr y Byrddau Gwasanaethu Cyhoeddus a'r Cydbwyllgor Corfforaethol. Yn ystod yr ymarfer hwn, mae fy nhîm hefyd wedi casglu safbwyntiau'r staff o fewn y sefydliadau hyn drwy arolwg agored 'Ffocws Ein Dyfodol Cymru' a drwy rwydweithiau megis Rhwydwaith Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru Plus, Conffederasiwn y GIG, y sefydliad Communities 4 Communities a llawer mwy.

Parthed y cyngor, y cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir gan fy swyddfa, mae canfyddiadau Ffocws Ein Dyfodol yn cadarnhau canfyddiadau Pwyllgor PAC y Pumed Senedd bod arbenigedd sylweddol y tîm mewn datblygu cynaliadwy yn fawr ei barch ac yn angenrheidiol ar gyfer cyrff cyhoeddus Cymru. Mae ein model aseinio cysylltiadau arweiniol cyrff cyhoeddus wedi ei ganmol mewn llawer o gyfarfodydd a fynychais gydag uwch ffigurau ledled sector cyhoeddus Cymru.

Wrth i fy rôl ac ansawdd y cymorth gan fy nhîm ddod yn fwy adnabyddus, mae yna gynnydd cyson yn y galw ar fy amser neu amser fy nhîm. Mae'r nifer o geisiadau yn y rhan fwyaf o'r sectorau wedi tyfu o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r ffigurau isod yn dangos y newidiadau dros amser:



Roedd ceisiadau gan gyrff cyhoeddus (gyda dyletswyddau o dan y Ddeddf), BGCau, Llywodraeth Cymru, y sector preifat a'r trydydd sector a'r byd academaidd yn cyfrif am dros 78% (479) o'n ceisiadau a gofnodwyd yn 2022-23 (618 o geisiadau).

Mae'r duedd yn parhau. Eisoes yn ystod chwe mis cyntaf 2023-24, rydym wedi derbyn 411 o geisiadau am gymorth. Chwarter 2 oedd y pumed chwarter yn olynol gyda nifer cynyddol o geisiadau. Roedd ceisiadau gan gyrff cyhoeddus (gyda dyletswyddau o dan y Ddeddf), BGCau, Llywodraeth Cymru, y sector preifat a'r trydydd sector a'r byd academaidd yn cyfrif am dros 75% (n=163) o'n ceisiadau a gofnodwyd yn Chwarter 2 2023-24. Rydym hefyd yn gweld cynnydd yn y cyrff cyhoeddus ychwanegol y disgwylir iddynt ddod o dan y Ddeddf o fis Ebrill 2024 gyda 10 cais yn ystod y Chwarter hwn.

Mae mwyafrif y ceisiadau yn defnyddio ein harbenigedd. Yn ôl ein categoreiddiad ni ein hunain, cymorth gyda "Gweithredu'r Ddeddf", yn gyson, yw'r thema **sylfaenol fwyaf cyffredin.**

Gan weithredu ar y ceisiadau gan gyrff cyhoeddus ac argymhellion y Senedd, yn ystod 2023-24, rydym wedi treialu rhywfaint o ddysgu a datblygu wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae'r tîm wedi cynnal sesiynau agored ar ystod o bynciau, gan gynnwys meddwl hirdymor, caffael yn ogystal â "diweddariadau" ar y Ddeddf; rydym hefyd wedi cynnal sesiynau sydd wedi'u hanelu at niferoedd llai o gyrff cyhoeddus ar bynciau penodol fel darpariaeth BGCau, craffu ar FGCau a sganio'r gorwel.

Dywedodd 70% o bobl eu bod eisiau mynychu ein sesiynau i gael gwell dealltwriaeth o'r Ddeddf. Mae gwerthusiad o'r sesiynau, hyd yn hyn, yn dangos bod 100% o'r mynychwyr (n=77) wedi cynyddu eu hyder wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ganlyniad i'r sesiwn a fynychwyd ganddynt. Mae pob sesiwn hyfforddi y mae'r tîm wedi'i chyflwyno yn ystod Chwarter 1 a Chwarter 2 2023-24 wedi'i gordanysgrifio ac mae rhestr aros ar gyfer sesiynau dilynol, ond yn anffodus, mae ein cyllideb ar gyfer eu darparu'n gyfyngedig.

Mae ymatebwyr eisiau mwy o gysylltiad ậ'r tîm i'w cynorthwyo, yn ogystal ậ rhagor o weithdai a chyfleodd hyfforddi:

- "Hyfforddiant fyddai'r peth mwyaf defnyddiol gan nad yw darparu adnoddau a phecynnau cymorth yn unig yn ddigon i sicrhau nad oes dim byd yn cael ei golli. Yn fy mhrofiad i mae dysgu wyneb yn wyneb yn llawer mwy buddiol."
- "Byddai gweithdai a rhaglenni sy'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu prosesau ac arferion sy'n gweithredu'r ddeddf yn ddefnyddiol iawn."
- "Y pethau mwyaf defnyddiol oedd y sgyriau uniongyrchol a gawsom gyda'ch tîm.

(*Dyfyniadau ymatebyddion yr arolwg i 'Ffocws Ein Dyfodol' 2023)*

Yn ogystal â'r nifer cynyddol o geisiadau, mae eu cymhlethdod hefyd yn cynyddu. Mae cyrff cyhoeddus a BGCau bellach wedi bod yn gweithredu'r Ddeddf ers dros 7 mlynedd ac mae'r cyngor a'r her y maent yn gofyn amdanynt gan fy swyddfa yn fwy beichus, uchelgeisiol a thechnegol. Mae pobl yn gofyn am gyngor a chymorth mewn llawer o feysydd arbenigol sy'n dod o dan y Ddeddf, yn ddiweddar, afonydd, gwaith teg, bwyd,

datgarboneiddio digidol, ansawdd aer, seinweddau ac ati). Mae hyn yn awgrymu bod angen gwybodaeth a mewnbwn technegol ar nifer enfawr o bynciau technegol.

Cydnabu ein hymarfer ymgyfrannu Ffocws Ein Dyfodol nad yw ein cyllid wedi darparu digon o gapasiti i roi i gyrff cyhoeddus y lefelau o gymorth ymarferol, sector-benodol y maent wedi galw amdano i weithredu'r Ddeddf.

- *"Mae pobl cyswllt y cyrff cyhoeddus yn ddechrau da – er mai dim ond man cychwyn yw un ysgogydd newid yn gweithio at draws rhanbarth cyfan..."*
- *"Yn union! Hoffwn weld cwmpas Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynyddu nifer eu tîm i alluogi sefydliadau'r sector cyhoeddus i gael eu cefnogi i ymgorffori'r Ddeddf. Gallai'r cyfryw Lysgenhadon Cenedlaethau'r Dyfodol sicrhau eu bod ar gael i ymgolli mewn sefydliad am gyfnod cyfyngedig i ddod yn addysgwyr ac yn gatalyddion – gan ganiatáu i'r sefydliad ddod yn hyddysg yng Nghenedlaethau'r Dyfodol."*
- *Mae cael cyswllt arweiniol i'r sefydliad yn ddefnyddiol iawn."*

***(Dyfyniadau ymatebyddion yr arolwg i 'Ffocws Ein Dyfodol' 2023***

Gwaetha'r modd, rwyf eisoes mewn sefyllfa lle na fedraf ddiwallu, i'r lefel yr hoffwn, y galwadau sy'n dod i fy swyddfa. Drwy ddulliau newydd o weithio, er enghraifft, drwy gyflawni llai o waith pwrpasol a mwy o sesiynau un i lawer, mae gennyf gynlluniau i gynyddu ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd yn y dyfodol. Er hynny, mae'r gyllideb y gofynnir amdani yn y papur hwn yn angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth sy'n ofynnol i gwrdd ậ'r galw a ddisgwylir wrth i ni symud ymlaen.


**Ymdrechion parhaus i leihau costau**

Mae fy rhagflaenydd a minnau wedi bod yn gwneud yr hyn a allwn i fod yn gost effeithlon ac i arbed adnoddau lle y gallwn. Fel canlyniad rydym wedi cyflawni arbedion sylweddol.

Rydym eisoes wedi cwtogi ar nifer ein huwch dîm, wedi symud swyddfeydd; yn ddiweddar wedi lleihau ymhellach ein deiliadaeth o swyddfeydd ac wedi hepgor rhaglenni cymorth a hyfforddiant er mwyn cwrdd â chyllidebau tynn. Disgwyliwn barhau i orfod gwneud yr un peth yn 2024-25 hyd yn oed os dyfernir y gyllideb a nodir yn y ddogfen hon i ni.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu incwm (drwy godi tâl i adennill costau am ddarparu gwasanaethau fel y caniatëir gan y Ddeddf), ac wedi rhannu staff ac adnoddau eraill gyda Chomisiynwyr eraill a phartneriaid ehangach.


Mae'r ddeddfwriaeth yn gwahardd fy swyddfa rhag codi tâl a gwneud elw am wasanaethau a allai, drwy fynd i'r afael ậ hwynt, alluogi fy swyddfa i gynhyrchu incwm o fannau eraill i gefnogi gwaith cyrff cyhoeddus a gwneud iawn am y diffyg cyllid. Eto, mae'r swyddfa wedi llwyddo i ddod ag adnoddau ychwanegol o tua £1.9miliwn i'm swyddfa dros gyfnod o 7 mlynedd.




Yn y flwyddyn sy'n dod byddaf yn edrych i weld beth mwy y gallaf ei wneud i gynhyrchu incwm ychwanegol tu hwnt i Lywodraeth Cymru.

## Rydym yn wynebu argyfwng ariannol

Yn y gorffennol, mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi medru rheoli ei chyllidebau drwy ddefnyddio ei chronfeydd wrth gefn yn ôl y galw. Rydym wedi llwyddo i negodi codiadau untro gyda Llywodraeth Cymru rhwng 2021 a 2023 (gweler y graffig isod). Tra'r oedd y codiadau untro hyn i'w croesawu, recriwtio pobl ar gontractau tymor-byr yn unig fedren ni ei wneud, a chyflawni dim ond prosiectau untro. Mae'r ansicrwydd ynglŷn ậ'r posiblrwydd o weld y contractau hyn yn parhau hefyd yn ei gwneud yn anodd cynllunio tu hwnt i'r dyfodol agos. Mae'n gwrthddweud y meddylfryd hirdymor a anogir gan y Ddeddf. Buaswn yn croesawu cynnydd gwaelodlin mwy cyson a dibynadwy i ganiatáu i fy swyddfa weithredu'r geiriau a gwneud ymagweddau tymor hwy yn rhan annatod o'n gwaith.




Mae cynnydd untro mewn adnoddau yn y gorffennol wedi galluogi'r swyddfa:

- I gynnal tîm o bobl cyswllt ymroddgar ar gyfer cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, sy'n cynghori ar ystod o bynciau yn amrywio o strategaethau corfforaethol i ymgyfraniad dinasyddion.
- I recriwtio aelod ymroddgar o staff i weithio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a pholisi cynhwysedd, gan ddatblygu cysylltiadau a phartneriaethau gydag amrywiol gymunedau a sicrhau bod ein hymagweddau mewnol yn rhai blaengar.
- I barhau i gyflogi tîm i gyflawni ein gwaith rhyngwladol a'r Academi Arweinyddiaeth tra bod cyllid yn cael ei gytuno.
- I ymgymryd ag Adolygiad Adran 20 i beirianwaith gweithrediad y Ddeddf gan Lywodraeth Cymru.

Byddai mynd yn ôl i'r dynodiad gwaelodlin o £1,680K yn arwain at ganlyniadau arwyddocaol ar lefelau adnoddau, a byddai'n golygu'r angen am doriadau, yn cynnwys toriadau staffio.

## Pwysau presennol

I'w gosod mewn cyd-destun, rwyf eisiau nodi'r heriau yr wyf eisoes yn eu hwynebu o fewn adnoddau presennol:

- Nid yw fy nhîm yn medru rhoi cyngor 'sector-benodol', er ein bod yn ceisio teilwra ein gwaith i eithaf ein gallu. Rydym wedi cynnal gwaith penodol ar gynllunio, caffael a datgarboneiddio yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae Pwyllgorau'r Senedd a chyrff cyhoeddus wedi gofyn am gyngor sy'n rhoi ffocws penodol ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyrff cenedlaethol sy'n sectorau gwahanol, ac sy'n gweithredu mewn cyd-destunau cwbl wahanol.
- Rydym yn rhoi cyngor lefel-uwch i'r BGCau (yn unol ậ'n dyletswyddau) ond hoffem weithio'n fwy trylwyr gyda nhw ar weithrediad eu cynlluniau llesiant. Mae gweithio mewn dull mwy trylwyr gyda'r 13 BGC ar hyn o bryd yn amhosib.
- Nid oes gennym yr adnoddau i weithio ochr yn ochr ậ phob corff cyhoeddus wrth iddynt ddatblygu eu hamcanion a'u camau llesiant. Mae cael 'tîm cyrff cyhoeddus' wedi helpu. Rydym yn awr yn medru rhoi mwy o fewnbwn i gynlluniau drafft na chynt, ond nid ydym yn medru gweithio gyda phob un ohonynt mor drylwyr ag y byddem yn dymuno.
- Ym mlwyddyn ariannol 2022-23 bu'n rhaid i ni wrthod 129 cais am gymorth (20.9%) a 69 cais hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon (hyd Hydref 2023) yn bennaf oherwydd diffyg capasiti.

Mae'r cyd-destun ariannol presennol yn ychwanegu'n aruthrol at y pwysau hyn. Mae cynnydd mewn costau, yn enwedig cyflogau, yn ogystal â'r ymarfer alinio cydraddoldeb cyflog wedi cyfrannu ymhellach at y pwysau cyllidebol hyn.

Mae fy staff hefyd yn aelodau o gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil. Bydd cynnydd yng nghyfraddau cyfraniadau pensiwn y cyflogydd o 1af Ebrill 2024, sy'n mynd i ychwanegu £13k o gostau pellach at fy nghyllideb ar gyfer 2024-25.

Mae'r pwysau hyn wedi cael ei waethygu gan newidiadau yn y rheolau cyfrifyddu sy'n atal fy swyddfa rhag cadw cronfeydd wrth gefn. Mae'r anallu i gadw cronfeydd wrth gefn yn cyfyngu ar allu'r swyddfa i fod yn gydnerth yn ystod cyfnodau anodd.

Yn y gorffennaf, caniataodd lefel rhesymol o gronfeydd wrth gefn y swyddfa i ymdopi ag unrhyw faterion nas cynlluniwyd, materion brys a phwysig y dygwyd fy sylw atynt. Heb y sicrwydd hwn rwyf yn awr yn gweithio mewn awyrgylch llawer llai sicr. Er enghraifft, eleni yn 2023-24 nid wyf eto wedi medru sicrhau'r taliad costau byw untro llawn o £1,500 sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Dim ond dau draean o'r swm y medrais ei sicrhau ym mis Hydref 2023 ac rwyf yn dal i geisio darganfod adnoddau ar gyfer y traean coll erbyn diwedd y flwddyn.

Yn Rhagfyr 2021 ychwanegwyd Cydbwyllgorau Corfforaethol at y rhestr o gyrff sy'n dod o fewn cylch gwaith y Ddeddf, ond ni wnaeth y swyddfa dderbyn unrhyw gynnydd yn y gyllideb i dalu'r costau cysylltiedig. Bydd wyth corff cyhoeddus yn cael eu hychwanegu at gylch gwaith y Ddeddf yn nechrau 2024-25. Byddai 2 Fil pellach yn cynyddu ein dyletswyddau (un yn ein gwneud yn ymgynghorai statudol ar 2 wahanol strategaeth genedlaethol [ansawdd aer a seinweddau] ac un arall yn creu corff newydd). Nid oes unrhyw arwydd o gyllid ychwanegol wedi'i i roi i ni.

I gloi, mae’r model cyllid eisoes yn hynod o heriol ac mae’n peryglu fy ngallu i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yn llawn i wireddu uchelgeisiau’r Ddeddf.

Mae’r tabl isod yn dangos i ba raddau y gellid bod wedi disgwyl i fy ngwaelodlin gynyddu, a hynny yn unig ar gyfer cadw i fyny gyda chwyddiant:

| | | £000 | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gwaelodlin wirioneddol** | **Gwaelodlin wedi ei haddasu*** | **Gwahaniaeth** |
| | 2016-17 | 1,460 | | |
| | 2017-18 | 1,460 | 1,500 | **40** |
| | 2018-19 | 1,460 | 1,536 | **76** |
| | 2019-20 | 1,564 | 1,568 | **4** |
| | 2020-21 | 1,509 | 1,580 | **71** |
| | 2021-22 | 1,592 | 1,604 | **12** |
| | 2022-23 | 1,592 | 1,749 | **157** |
| | 2023-24 | 1,680 | 1,901 | **221** |
| *Rhagamcanol* | *2024-25* | *1680* | *1,970* | ***290*** |

*defnyddio cyfraddau chwyddiant blynyddol bob mis Ebrill o wefan SYG

Pe bai’r gwaelodlin wedi cael ei ariannu’n unol ậ chwyddiant, yna byddai hyn wedi lliniaru llawer o’r pwysau hyn.

## 4. Adnoddau sydd eu hangen ar gyfer 2024-25 a blynyddoedd dilynol

Ar gyfer 2024-25, rwyf yn cynnig y dylai fy nyraniad adnoddau ar gyfer gwaith craidd gael ei gynyddu o 7% ar gyfer chwyddiant - o’r gwaelodlin presennol o £1,680,000 i £1,797,600

Hefyd, rwyf yn amcangyfrif y bydd lefel y costau digonol, ar y man lleiaf, ar gyfer darparu cymorth i’r wyth corff newydd yn £80,000. Mae angen i mi hefyd sicrhau cynnydd o £13,000 yn y gyfradd pensiwn. Yn olaf, hoffwn fynd i’r afael ậ gwendidau yn y wefan a’r systemau digidol presennol, ar gost amcangyfrifiedig o £20,000.

Felly, y gyllideb yr wyf yn gofyn amdani ar gyfer 2024-25 yw £1,910,600. Mae'r ffigur yn cynnwys y cynnydd yn fy nyletswyddau a'r cynnydd mewn costau.

Ar gyfer 2024-25 nid yw maint incwm ychwanegol (o ffynonellau heblaw cyllid craidd Llywodraeth Cymru) eto wedi ei benderfynu'n llawn ond mae'n debyg o gynnwys:

- noddi carfan newydd o gyfranogwyr Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol
- honorariwm ar gyfer cymryd rhan mewn cynadleddau
- rhaglen waith ryngwladol ar y cyd ậ Llywodraeth Cymru.

Rwyf wedi amcangyfrif cost (ac felly incwm) o £200,000 yr wyf wedi ei gynnwys er mwyn cyflawnrwydd, ond gall y bydd hyn yn newid yn sylweddol yn y misoedd sydd i ddod.

## 5. Niferoedd staff

Cytunwyd yn ein Memorandwm Cytundeb gyda Llywodraeth Cymru (a lofnodwyd ym Mai 2023) y byddem yn cynnwys niferoedd staff yn fy amcangyfrif blynyddol statudol.

Gweithlu presennol Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw 28 o bobl (yn cynnwys swyddi amser llawn a swyddi rhan amser) yn ogystal ậ'r Comisiynydd. Mae'n annhebydol y byddwn ym gallu cynnal y lefel hwn o staffio hyd yn oed os cytunir ar swm yr amcangyfrif hwn.

## 6. Fy nghais i Weinidogion

Ar gyfer 2024-25, gwariant adnoddau net ar gyfer gwaith craidd yn ôl fy amcangyfrif (a'm cais) yw £1,910,600 (cyfalaf a refeniw) fel y caiff ei egluro uchod a'i grynhoi isod.

## Crynodeb o Amcangyfrif Incwm a Threuliau 2024-25 a'r Cais am Adnoddau Net

Mae'r tabl isod yn crynhoi fy nghais adnoddau net ar gyfer 2024-25

**Tabl 2: Crynodeb o gais adnoddau net ar gyfer 2024-25**

| | **Yr adnoddau y gofynnwyd adanynt** |
|---|---|
| | **£000** |
| Gwaith a chostau statudol craidd | 1,890.6 |
| Amcangyfrif o gost gwaith yr ymgymerwyd ag ef ar sail ad-dalu (gweler Adran 4) | 200 |

| | |
|---|---|
| Buddsoddiad cyfalaf | 20 |
| Cyfanswm Gwariant Gros<br><br>Adennill costau gwaith ad-dalu | <br><br>(200) |
| Gofyniad adnoddau net | 1,890.6 |
| Gofyniad cyfalaf net | 20 |

Mae Atodiad Un yn rhoi dadansoddiad mwy manwl o wariant.

## 9. Amcangyfrif o'r gofyniad Grant-mewn-cymorth i ariannu'r Cais am Adnoddau Net

Mae'r tabl canlynol yn dangos cymodi gofyniad adnoddau net i amcangyfrif o gymorth grant sydd ei angen.

**Tabl 8: Amcangyfrif o'r cymorth grant sydd ei angen ar gyfer 2024-25**

| | **£000** |
|---|---|
| Gofyniad adnoddau net<br>*Llai*: gwariant heb fod yn arian parod (darpariaethau a dibrisiant)<br>*Hefyd*: gwariant cyfalaf | 1,974<br>(2)<br><br>- |
| Amcangyfrif o gymorth grant sy'n ofynnol | 1,972 |

Mae'n rhaid i'r arian parod a gedwir ar ddiwedd y flwyddyn fod bellach ar y lefelau isaf, ac ni fedrwn dynnu arian parod i lawr cyn bod ei angen. Rwyf felly'n rhagdybio y bydd gennym lefel bach iawn o arian ar ddiwedd y flwyddyn, ac at ddibenion amcangyfrif mae hyn i bob pwrpas wedi ei anwybyddu fel mater amherthnasol.

## 9. Dangosiad o'r gyllideb am 2 flynedd yn olynol

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddent yn hoffi cael ffigur dangosol o'r gyllideb am y 2 flynedd yn olynol. Rydym yn croesawu'r ymagwedd tymor hwy at gynllunio cyllideb.

Yn seiliedig ar ragamcanion chwyddiant o 2.0% a 2.0% ar gyfer 2025-26 a 2026-27 yn y drefn honno, byddai amcangyfrifon dangosol cynnar yn awgrymu bod ar fy Swyddfa angen lefelau cyllid sylfaenol o £1,932,000 a £1,971,000.

Rhagamcanion cynnar iawn yw'r rhain, fodd bynnag. Gall amcangyfrifon chwyddiant newid yn sylweddol. Ni fydd cymorth cydraddoldeb cyflog mwyach ar gael i fy Swyddfa

ar gyfer y blynyddoedd hyn sydd i ddod ychwaith ac nid yw hi'n glir eto faint o effaith gaiff yr 8 corff ychwanegol ar fy Swyddfa na'r cymorth ariannol hirdymor y gall y bydd arnynt ei angen.

Gan mai hon yw fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd, gall y byddaf yn dymuno cyflwyno amcangyfrif gwahanol y flwyddyn nesaf ar ôl i mi arsylwi a myfyrio ar faint o adnoddau y byddai ar fy swyddfa eu hangen i gyflawni fy nyletswyddau a fy strategaeth newydd.

**Derek Walker**

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

**Hydref 2023**

**Atodiad 1**

## Manylion y Gyllideb Adnoddau

| | 2024-25<br>£ |
|---|---|
| Cyfanswm costau staff | 1,458,600 |
| Cyfanswm costau adeiladau | 42,000 |
| Cyfanswm costau swyddfa | 30,000 |
| Cyfanswm Pobl a Diwylliant | 30,000 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | 15,000 |
| Cyfanswm Costau Archwilio a Risg | 51,000 |
| Cyfanswm Costau Cyfathrebu a Monitro | 48,000 |
| Cyfanswm Costau TG | 36,000 |
| Costau Prosiect | 100,000 |
| Cyfanswm Gwariant | 1,810,600 |
| Costau 8 corff ychwanegol | 80,000 |
| **Cyfanswm Costau Disgwyliedig** | **1,890,600** |

Gofynnir am swm cyfalaf o £20,000 ar gyfer datblygu gwefan a gwelliannau digidol yn ychwanegol at hyn i gyrraedd cyfanswm o £1,910,600.